# Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan
# Llanddoged and Maenan Community Council

DELYTH M. ALGIERI
Clerc

Ffôn (01492)642183

Bryn Dedwydd
Penrhiw,
Llanddoged.
Llanrwst.
LL26 0BZ

E.Bost clerk@llanddoged-maenan.org.uk

****************************************************************************************

12/04/2024

Annwyl Syr/Fadam,

Cynhelir cyfarfod yn **Ysgol Gynradd Llanddoged** , **Nos Lun 29ain Ebrill, 2024** am **7.30** o'r gloch i ystyried y materion a ganlyn:-

- Ymddiheuriadau.
- Cadarnahu cofnodion o'r cyfarfod diwethaf 18fed Mawrth, 2024
- Materion yn codi o'r cofnodion
- Cymeradwyo cyfrifon sy'n diweddu Mawrth 2024.
- Diweddariad -Ceisiadau Grant 'UKSPF' Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac arwyddo y ddogfen cadarnhad derbyn arian y grant.
- Cymeradwyo polisiau 'Rheolau Sefydlog , Rheoliadau Ariaano'l 2024/25 a Asesiad Risg.
- Cynnal a Chadw
- Unrhyw Fater Arall

Yn gywir

Delyth Algieri(Clerc)

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 18, Mawrth 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Alun Morris(AM (Cadeirydd), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO).

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Hefin Martin(HM) , Cyng. Dylan Jones(DJ), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW)

2. **CADARNHAU'R COFNODION 19eg Chwefror Ionawr, 2024**

Cynnigwyd yn gywir gan (JO) ac eilwyd gan ( ALJ).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

Dim mater yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

4. **CEISIADAU AR GYFER Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**

Arwyddwyd y Cadeirydd a'r clerc y dogfennau i anfon yn ôl i'r Gronfa Gyffredin y DU Conwy.
Y Clerc wedi gosod arwydd ar giât y maes parcio Cegin Wen Llanddoged i hysbysebu'r cyhoedd fod y maes parcio ar gau o 25ain Mawrth hyd a 28ain Mawrth 2024 ar gyfer cynnal a chadw ail wynebu'r maes parcio gan C T Roberts Llanrwst.

5**. CYNNAL A CHADW**

5.1 Twll yn y ffordd wrth Bryn Dyffryn, Ffordd Bryn Saith, Llanddoged.
5.2 Angen cysylltu gydag Emyr Jones, Adran Priffyrdd I gael diweddariad ar allt Salem, Llanddoged.
5.3 Angen edrych ar y ffosydd o Nant I fynnu hyd at Ffrith Isaf, Llanddoged.
5.4 Cais i lanhau'r mannau pasio ar allt Bryn Rhydd hyd at Tyddyn Frencher, Maenan.
5.5. Angen llenwi'r twll wrth fynedfa Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

6**. UNRHYW FATER ARALL**

6.1 Derbyniwyd cwyn am faw cwn o gwmpas y pentref gan aelodau o'r cyhoedd. Pasiwyd i fonitro'r sefyllfa.